

Adroddiad Blynyddol gan Gyngorydd 2017/18

Hwn yw'r adroddiad gan y Cyngorydd isod ar ei gweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cyngorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

Cyngorydd: Llinos Medi

Grŵp: Plaid Cymru

Ward: Talybolion

1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Arweinydd y Cyngor a Deilydd Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol

Rhwng Mai 2017 a Mawrth 2018, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:	Nifer y cyfarfodydd a drefnwyd	Nifer a fynychwyd
Cyngor	9	9
Pwyllgor Gwaith	11	10
Pwyllgor Penodiadau	9	8
Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig	1	0
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	3	1
Panel Rhiantu Corfforaethol	4	3
Pwyllgor Ymchwilio	0	0
Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir. Gall trefniadau cyflogaeth Aelod hefyd effeithio ar lefelau presenoldeb.		
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.</i>		

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 4 allan o'r 6 cyfarfod a drefnwyd. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Grantiau Cyffredinol yr Ymddiriedolaeth ac wedi mynychu'r 1 cyfarfod a drefnwyd.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y gyrff allanol canlynol:	Nifer a fynychwyd
Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Gwynedd a Môn	6
Grŵp cyfeirio cydranddeiliaid Betsi Cadwaladr	2
Pencampwr Diogelu Oedolion	
Pencampwr Plant a Phobl Ifanc	
Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn	6
Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn	2
Medrwn Môn	1
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	10
Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru	2

Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru	
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Cynghorydd Carwyn Jones yn mynychu
Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn a Gwynedd)	6
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014)	7
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	0
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru	
Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa	0
Grŵp Rhanddeiliaid y safle Wylfa	1
Llywodraethwr – Ysgol Gynradd Llanfechell gan gynnwys paneli	5

2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth

Rwyf yn mynychu Cyngorau Cymuned Llannerchymedd, Bodedern, Tref Alaw, Mechell a Charreglefn, Cylch y Garn, Llanfachraeth a Llanfaethlu a Llanfwrog mewn rota gyda fy nghyd gynghorwyr.

Rwyf yn Llywodraethwr ar Ysgol Gynradd Llanfechell a Bodedern.

Rwyf wedi mynychu'r unig gyfarfod Partneriaeth Gogledd yr Ynys cefais wahoddiad iddo ar ran ardal Cylch y Garn a Mechell a Charreglefn.

Rwyf wedi bod ynghlwm ac arian Loteri sy'n dod I Llannerchymedd sydd nawr yn cael ei yrru ymlaen drwy'r Cyngor Cymuned.

Rwyf ar gael drwy'r cyfryngau cymdeithasol i unigolion cysylltu gyda mi am gymorth. Yn y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi derbyn nifer o ymholiadau ward ynglŷn â - Thai, Cynllunio, Addysg, Priffyrdd, Gwastraff, Gofal Oedolion ac amryw o faterion eraill. Rwyf hefyd yn rhoi cefnogaeth gyffredinol wrth gyfeirio pobl tuag at y sefydliadau cywir

3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi derbyn nifer o geisiadau gan ysgolion am ymweliadau i'r Cyngor ac rwyf wedi mwynhau mynd a phlant Ynys Môn o amgylch yr adeilad yn codi ymwybyddiaeth o waith y Cyngor a rôl Cynghorydd Sir.

Rwyf wedi cymryd rhan fel hyfforddwr yn hyfforddiant Arweinyddiaeth WLGA yn rhannu fy mhrofiadau er mwyn cefnogi Cynghorwyr drwy Gymru.

4 - Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	11/05/2017
Hyfforddiant IPad	12/05/2017
Cyflwyniad i Wasanaethau'r Awdurdod	18/05/2017

Sesiwn Briffio – Cynllun Corfforaethol a'r Côt	18/05/2017
Diogelu Sylfaenol	01/06/2017
Deddf Tai	06/07/2017
Hyfforddiant Diogelwch	07/07/2017
Cwestiynu effeithiol yn Sgriwtini	04/12/2017
Hyfforddiant materion Cynllunio	05/03/2018
Hyfforddiant ACE	28/03/2018
Sesiynau Briffio Aelodau (8 allan o 12)	Mai 2017 – Mawrth 2018
<i>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft.</i>	

5 – Gweithgareddau a Materion Eraill

Rwyf wedi cynrychioli'r ward mewn nifer o ffyrdd eleni wrth gyfuno'r rôl Cynghorydd Lleol ac Arweinydd y Cyngor. Rwyf yn mwynhau cynrychioli'r gymdeithas wledig ac ymateb i'r heriau lleol.

Hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, diolch i staff y Cyngor am fy helpu i ymateb i'r anghenion lleol, diolch i deulu a ffrindiau am eu cymorth a diolch o galon I Elliw a Twm am gefnogi eu mhâm yn y swydd yma.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:

<http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=304&LLL=1>

Y Cynghorydd Llinos Medi Huws	Ebrill 2018
--------------------------------------	--------------------